# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i'r Cabinet

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **27 Medi 2022** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Beca Brown** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Garem Jackson** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **32089** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Addysg** |

### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1 Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

### 3 CYFLWYNIAD

3.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Addysg. Mae hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor; gwaith dydd i ddydd yr Adran; a'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau.

3.2 Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2018-23, ac yma rwyf yn adrodd ar y cynnydd hyd at ddiwedd Awst 2022. Rwyf am eich atgoffa bod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfod herio perfformiad. Rwyf yn arbennig o hapus gyda pherfformiad yr Adran, a byddaf yn ymhelaethu ar y cynnydd yn yr adroddiad.

### 4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

**Perfformiad Prosiectau Cynllun y Cyngor**

4.1 **Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy**

4.1.1 Mae Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn cynllunio a gwireddu prosiectau arloesol i addasu ysgolion, neu adeiladu ysgolion newydd er mwyn i blant a phobl ifanc Gwynedd gael eu haddysgu yn yr amgylchedd dysgu gorau posibl.

4.1.2 Er gwaethaf y pandemig bu i adeilad newydd Ysgol y Garnedd agor ei drysau yn Hydref 2020 gan ddod yn gartref addysgol newydd i hyd at 420 o ddysgwyr yn ninas Bangor. Mae safle'r ysgol hefyd yn cynnig addysg feithrin a darpariaeth gofal plant cynhwysfawr mewn awyrgylch pwrpasol gyda'r adnoddau gorau posibl. Mae gofod wedi ei gynllunio'n ofalus yn ogystal ar gyfer unedau arbenigol i gefnogi datblygiad

plant ar y safle. Roedd gwaith tîm ardderchog, a chyfathrebu clir yn nodwedd o'r prosiect llwyddiannus hwn sydd wedi cadw o fewn y gyllideb a neilltuwyd ar ei gyfer. Mae'r prosiect wedi ennill dwy wobr Rhagoriaeth Mewn Adeiladwaith yng Nghymru 2021 sef:
*Gwobr Adeiladwaith Digidol (Digital Construction Award)*
*Gwobr Cleient y flwyddyn (Client of the Year Award)*
https://www.cewales.org.uk/cew-awards/awards-2021/
Byddwn yn trefnu agoriad swyddogol ar y cyd â'r ysgol pan fydd yn saff i wneud hynny.

4.1.3 Mae Ysgol y Faenol hefyd yn y broses o gael estyniad sylweddol. Er bod llithriad yn yr amserlen wedi bod o ganlyniad i'r pandemig, mae'r estyniad wedi ei gwblhau erbyn hyn. Er hynny, mae trafodaethau ynglŷn â throsglwyddiadau tir yn parhau ac o ganlyniad nid oes modd cwblhau'r gwaith ar faes parcio'r ysgol ar hyn o bryd. Pan fydd y gwaith ar y maes parcio wedi ei gwblhau, bydd yr ysgol yn gallu derbyn 315 o ddysgwyr yn sgil yr estyniad, sydd yn gynnydd o 129 o ddysgwyr. Mae'r adeilad wedi ei gynllunio i fod yn hwb i'r ardal leol hefyd gyda chanolfan gymunedol newydd yn cael ei chodi fel rhan o'r datblygiad. Rhagwelir y bydd y gwaith wedi'i gwblhau erbyn diwedd Tymor yr Hydref 2022.

4.1.4 I ateb y gofyn cynyddol am le yn Ysgol Glancegin ym Maesgeirchen rydym wedi sicrhau cyllid ar gyfer ychwanegu dosbarth at adeilad yr ysgol. Mae'r gwaith eisoes wedi ei gwblhau, ac roedd y dosbarth yn barod at ddefnydd yr ysgol ar gychwyn y flwyddyn addysgol ddiwethaf.

4.1.5 Mae trefniadau ar gyfer rheolaeth prosiect Ysgol Ein Harglwyddes wedi eu cytuno gyda'r Esgobaeth, sy'n golygu bydd Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am hwyluso trefniadau'r prosiect a chyflwyno'r achos fusnes i Lywodraeth Cymru. Mae gwaith dichonoldeb cychwynnol wedi'i gwblhau i adnabod yr anghenion, ac mae cytundeb i leoli'r ysgol newydd ar safle Ysgol Glanadda (sydd bellach wedi cau), ac mae'r lleoliad hwn yn cyd-fynd gyda dyheadau'r gymuned, gyda chynlluniau cysyniadol wedi eu creu ar gyfer sefydlu Ysgol Ein Harglwyddes ar y safle hwnnw.

4.1.6 Yn sgil cyflwr gwael adeilad ac amgylchedd dysgu presennol Ysgol Treferthyr, byddwn yn adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth er mwyn gwella'r amgylchedd dysgu a sicrhau'r adnoddau gorau i'r dysgwyr ffynnu. Mae'r Cabinet eisoes wedi cefnogi'r bwriad i gynyddu capasiti Ysgol Treferthyr i 150 o ddysgwyr, ac adleoli'r ysgol i safle amgen y cyfeirir ato fel safle A497 yn unol â'r drefn statudol. Mae cais cynllunio wedi ei gyflwyno i adleoli'r ysgol i safle'r A497, ond mae dau fater wedi codi parthed y safle fel rhan o'r broses gynllunio, ac mewn ymateb i hynny mae gwaith archeolegol wedi ei gwblhau, ac mae arolwg llwybrau saff i'r ysgol bellach wedi ei gwblhau ac adroddiad wedi ei gyflwyno i'r Adran Gynllunio. Edrychaf ymlaen i weld y gwaith adeiladu'n symud yn ei flaen yn fuan ac i weld y plant yn manteisio ar y cyfleusterau gorau un.

4.1.7 Yn sgil amrywiaeth yn ansawdd yr addysg a phrofiadau dysgwyr ar draws y gyfundrefn Addysg ôl-16 yn Arfon, rhoddodd y Cabinet ganiatâd i'r Adran ymgysylltu gyda rhan-ddeiliaid i drafod y weledigaeth ar gyfer addysg ôl-16 yn Arfon. Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd rhithwir gyda phenaethiaid, Llywodraethwyr, staff, rhieni, dysgwyr a'r gymuned yn ehangach er mwyn cyflwyno'r weledigaeth newydd

ar gyfer addysg ôl-16, ynghyd â chasglu barn a syniadau am y ffordd orau i wireddu'r weledigaeth. Rydym wedi adrodd ar negeseuon cychwynnol yr ymgysylltu yma gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ym mis Chwefror y llynedd, ac rydym nawr mewn sefyllfa i allu bwrw ymlaen efo'r prosiect hwn yn sgil yr oedi a fu dros y flwyddyn ddiwethaf.

4.1.8 Yn gysylltiedig â'r maes addysg ôl-16, rwy'n hynod o falch o nodi ein bod wedi diddymu'r ffi ar gyfer y tocyn teithio ôl-16 i'n holl ddysgwyr o fis Medi yma ymlaen. Mae hyn yn arbennig o bwysig i sicrhau nad ydym fel Cyngor yn gosod unrhyw rwystrau rhag galluogi ein pobl ifanc i barhau a'u haddysg wedi 16 oed, ac yn bwysicach fyth y dyddiau hyn o ystyried y cynnydd aruthrol yng nghostau byw.

4.19 Mae un prosiect o fewn y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, sef Cyflwr ac Addasrwydd wedi wynebu rhai rhwystrau a heriau sydd wedi amharu ar ein gallu i symud ymlaen i weithredu rhai agweddau o'r prosiect gydag ysgolion penodol am gyfnod. Pwrpas y prosiect yma yw gwella cyflwr adeiladau presennol ein hysgolion, gan wneud addasiadau i'r adeiladau er mwyn sicrhau eu bod yn addas i bwrpas ac yn gwneud y defnydd gorau o'r gofod sydd ar gael. O ganlyniad, yn ystod 2021 bu'n rhaid i ni oedi gweithredu nifer o addasiadau oedd wedi eu rhaglennu i ddigwydd yn ein hysgolion yn ystod haf 2021, gyda'r gobaith y byddai'r farchnad adeiladu'n sefydlogi a phrisiau'n gostwng rhywfaint. Rwy'n falch o ddweud bod y sefyllfa wedi gwella ers cychwyn y pandemig a Brexit, a'n bod wedi llwyddo i symud ymlaen i weithredu nifer o addasiadau a gwelliannau i gyflwr adeiladau ein hysgolion eleni, ac yn arbennig dros wyliau'r haf.

4.2 **Gagendor Lles a Chyrhaeddiad**

4.2.1 Yn sgil y pandemig a'r cyfnodau clo, mae'r Adran Addysg a'r Cyngor wedi adnabod y gagendor lles a chyrhaeddiad fel un o'r prif flaenoriaethau yn sgil pryder y gallai rhai plant a phobl ifanc gael eu gadael ar ôl o safbwynt eu cyrhaeddiad addysgol, ac y byddai angen cymorth ychwanegol ar rai ohonynt i gau'r bwlch hwnnw, ynghyd â'r angen am gefnogaeth gyda'u lles.

4.2.2 Er mwyn ymateb i'r pryder hwn, ers Medi 2020 mae pob ysgol yng Ngwynedd yn gweithredu *Rhaglen Cyflymu'r Dysgu* gydag arian gan Lywodraeth Cymru er mwyn ymateb i effaith y cyfnod clo ar les a chyrhaeddiad rhai grwpiau penodol o ddysgwyr 5-16 oed.

4.2.3 Y tu hwnt i'r ysgol, mae dau gyfnod ym mywyd plant a phobl ifanc wedi eu hadnabod fel blaenoriaeth o ran ymateb i'r gagendor lles a chyrhaeddiad hefyd, sef plant 0-5 oed, ynghyd â phobl ifanc ôl-16. Yn sicr, mae'r cyfnod clo wedi amlygu bregusrwydd y sector blynyddoedd cynnar, gydag anghysondeb ar draws y sir o ran ystod ac argaeledd gwasanaethau. Mae'r ystod o bartneriaid sydd yn rhan o'r ddarpariaeth ynghyd â chyfeiriad strategol y maes yn genedlaethol yn ei gwneud yn anodd i saernïo ein gwasanaethau ni yma yng Ngwynedd. Mae'r grŵp prosiect wedi cytuno ar ffrydiau gwaith penodol ac wedi blaenoriaethu cynnal asesiad digonolrwydd darpariaeth gofal ac addysg ar draws yr awdurdod. Ar yr un amser mae gwaith yn cael ei wneud ar fodelau ariannu gwahanol ynghyd ag oblygiadau prydlesi rhwng darparwyr a Chyngor Gwynedd.

4.2.4 Hefyd o sylweddoli fod y grŵp oedran 16-24 wedi eu heffeithio'n anghymesur gan y pandemig. Mae mwy o gyfeiriadau am gymorth llesiant, iechyd meddwl a digartrefedd ymysg y grŵp oedran hwn. Mae bwriad i roi sylw penodol er mwyn lliniaru unrhyw sgil-effeithiau gan sicrhau bod ein pobl ifanc yn cael cefnogaeth a darpariaeth briodol i'w galluogi i ffynnu.

4.3 **Trawsnewid y ddarpariaeth ADYaCh**

4.3.1 Pwrpas y prosiect hwn oedd trawsnewid y gwasanaeth anghenion dysgu ychwanegu a chynhwysiad er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd ei angen yn derbyn y gefnogaeth fwyaf addas i'w galluogi i gyflawni eu potensial. Bu'r prosiect hefyd yn canolbwyntio ar baratoi tuag at y Ddeddf Anghenion Dysgu a Thribiwnlys Addysg Cymru (2018). Daeth y Ddeddf hon yn weithredol ym Medi 2021, ond gyda chyfnod o dair blynedd i drawsnewid hyd at Medi 2024.

4.3.2 Mae Arolwg Parodrwydd Deddf ADY Llywodraeth Cymru yn dangos cynnydd cryf iawn o ran paratoadau'r Awdurdod o ran y Ddeddfwriaeth. Mae'r swyddi statudol angenrheidiol mewn lle ers Ionawr 2021 ac yn gweithredu'n effeithiol. Mae cyd-weithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd wedi datblygu'n dda drwy gydweithio gyda'r Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA). Mae nifer o ddigwyddiadau hyfforddi rhan-ddeiliaid wedi eu cynnal ar gyfer manylu ar agweddau penodol o'r Cod Terfynol. Bu gwaith ar y llwybrau datrys anghydfod i sicrhau bod rhain yn weithredol. Yn y sector blynyddoedd cynnar mae'r systemau angenrheidiol ar gyfer adnabod yn fuan, a sefydlu prosesau clir wedi ei gyflawni, ac mae'r gwaith paratoi yn y sector ôl-16 yn parhau. Hefyd mae'r gwaith o ddatblygu cyswllt gweithio, cwricwlwm ag asesu rhwng y prif-lif a'r Ysgolion Arbennig wedi datblygu ac yn parhau i ddatblygu.

4.3.3 Mae gwaith arloesol yn parhau i gymryd lle o ran defnydd a datblygiad parhaus y system Cynllun Datblygu Unigol ar-lein, gyda'r system yn gyrru'r holl broses ar gyfer yr ysgolion, rhieni, asiantaethau allanol a darpariaethau addysg eraill (e.e. blynyddoedd cynnar).

4.3.4 O ystyried bod y ddeddfwriaeth newydd wedi dod i rym ers Medi 2021, a bod Gwynedd mewn sefyllfa gadarn o safbwynt gweithredu'r gofynion newydd, rwyf o'r farn fod y prosiect hwn yng Nghynllun y Cyngor bellach wedi ei gyflawni, ac rwy'n hyderus bod y gofynion ynghlwm â'r ddeddfwriaeth bellach wedi trosglwyddo'n rhan o waith dydd i ddydd yr Adran.

4.4 **Strategaeth Addysg Ddigidol**

4.4.1 Mae'r hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni drwy'r strategaeth addysg ddigidol yn hynod uchelgeisiol ac yn arwydd o'r ffordd yr ydym ni'n blaenoriaethu addysg ein plant yma yng Ngwynedd. Yn syml, mae'r strategaeth yma, o'i gweithredu'n llawn am roi dyfais addas i alluogi dysgu digidol yn nwylo pob plentyn o flwyddyn 3 hyd at flwyddyn 11. Gwynedd fydd un o'r awdurdodau cyntaf i wneud hynny yng Nghymru ac mae'n rhywbeth y gallwn ni ymfalchïo ynddo.

4.4.2 Mae gwaith sylweddol eisoes wedi ei gyflawni, gan gynnwys uwchraddio rhwydwaith ysgolion yn unol â'r safonau digidol addysg, yn ogystal â'r gwaith o drawsnewid dull hidlo'r we. Mae ychydig dros £1.3m wedi ei fuddsoddi yn y rhwydwaith. At hyn, mae nifer sylweddol o ddyfeisiadau wedi eu rhannu yn unol â'r strategaeth. Mae digon o

*ipads* wedi ei rhannu i roi un i bob pedwar dysgwr yn y Cyfnod Sylfaen, gyda digon o *Chromebooks* wedi eu rhannu fel bod pob dysgwr o flwyddyn 3 i 6 yn cael dyfais yr un. Mae dyfeisiadau Windows 10 wedi cael eu paratoi yn ogystal ar gyfer pob disgybl ym mlwyddyn 7, 10 ac 11, ac mae pob un o athrawon Gwynedd wedi derbyn dyfais safonol drwy'r strategaeth cyn diwedd Tymor yr Haf eleni. Yn sgil y penderfyniad i fewnoli cefnogaeth i'r holl ddyfeisiadau, ac yn sgil proses recriwtio, mae tîm Gwasanaethau Digidol Ysgolion bellach wedi ei sefydlu ac yn weithredol. Y gobaith yw y bydd y dyfeisiadau hyn yn tanio dychymyg a sbarduno ymhellach ddyfeisgarwch ac effeithiolrwydd yr agweddau o ddysgu digidol ar draws y sectorau.

4.4.3 O ystyried fod y dyfeisiadau bellach wedi eu rhannu gyda dysgwyr ac athrawon yn ein hysgolion, a bod y Gwasanaeth Digidol Ysgolion wedi ei sefydlu, rwyf o'r farn fod y prosiect hwn yng Nghynllun y Cyngor bellach wedi ei gyflawni, a'r gwaith wedi trosglwyddo'n rhan o waith dydd i ddydd yr Adran Addysg a TGCh.

**4.5 Cinio am ddim yn yr ysgolion cynradd**

4.5.1 Yn mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei gynllun i ddarparu cinio am ddim i holl ddisgyblion cynradd ar draws Cymru. Ers y cyhoeddiad mae gwaith sylweddol wedi ei gyflawni ar y cyd rhwng yr Adran Addysg a'r Tîm Datblygu Eiddo sydd yn golygu ein bod o flaen yr amserlen genedlaethol ar gyfer darparu cinio am ddim i holl ddysgwyr ysgolion cynradd Gwynedd.

4.5.2 O ddechrau Medi ymlaen bydd pob dysgwr ym Mlwyddyn Derbyn ac Un yng Ngwynedd yn derbyn cinio ysgol am ddim, erbyn mis Ionawr rydym yn anelu i holl ddysgwyr Blwyddyn 2 yn ogystal dderbyn cinio ysgol am ddim, ac erbyn Medi 2023 anelwn at sicrhau y bydd holl ddysgwyr ysgolion cynradd Gwynedd yn derbyn cinio ysgol am ddim.

**4.6 Cydweithio Meirionnydd**

4.6.1 Pwrpas y prosiect yma yw edrych yn benodol ar sicrhau bod ansawdd yr addysg yn gyson dda ac yn gynaliadwy i'r dyfodol yn ysgolion uwchradd Meirionnydd. Mae'r cynnydd ar y prosiect wedi bod yn araf ac wedi ei effeithio yn sgil heriau amlwg y pandemig a phrysurdeb ysgolion uwchradd.

4.6.2 Serch hynny, rydym wedi casglu barn penaethiaid a chynrychiolaeth o lywodraethwyr pob ysgol uwchradd ar yr heriau posib sydd yn eu hwynebu o ran darparu addysg uwchradd o ansawdd yn yr ardal, megis recriwtio athrawon, rheolwyr canol ac arweinwyr. Rydym hefyd wedi cylchredeg holiadur er mwyn ceisio canfod barn dysgwyr, staff, rhieni a phenaethiaid fydd yn llywio cyfeiriad y prosiect i'r dyfodol, ac rydym yn y broses o ddadansoddi negeseuon o'r holiaduron rheiny ar hyn o bryd.

**4.7 Hybu defnydd o'r Gymraeg ymysg Plant a Phobl Ifanc**

4.7.1 Er mwyn ymateb i bryderon a adnabuwyd o ganlyniad i bandemig Covid 19 a gofynion deilliannau'r CSGA, sicrhawyd defnydd effeithiol o Grant y Gymraeg i dargedu sgiliau iaith y gweithlu a defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymysg disgyblion. Yn ystod 2021/22, cynlluniwyd a chwblhawyd 13 Cynllun Clwstwr y Gymraeg o dan arweiniad y Cydlynydd Siarter Iaith a'r Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd oedd yn cynnwys holl ysgolion cynradd ac uwchradd y sir. Braf oedd gweld ffilm a gynhyrchwyd o rai o arferion da gwaith y clystyrau hyn ar draws y sir yn cael ei

ddangos fel rhan o ddathliadau gŵyl cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd ym Mhorthmadog ym mis Mehefin eleni.

4.7.2 Manteisiwyd ar y cyfle i gael gwersi Cymraeg gan Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin, Prifysgol Bangor yn ystod 2021/22 gan 12 athro fel rhan o gynlluniau i ymateb i ddata Hunan Asesiad Sgiliau Iaith y Gweithlu Addysg. Cefnogwyd athrawon a chymhorthydd Ysgol Ein Harglwyddes ym Mangor i wella a gloywi eu sgiliau iaith Gymraeg mewn cydweithrediad gyda Chanolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor. Rwy'n hynod o falch fod athrawes Datblygu'r Gymraeg wedi ei phenodi yn Ysgol Friars ar gyfer Medi 2022 gyda chefnogaeth yr Awdurdod er mwyn cefnogi gweithlu'r ysgol i fagu hyder a meithrin sgiliau yn y Gymraeg, gyda'r nod y bydd mwy o ddarpariaeth cwricwlaidd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg i ddysgwyr dros y blynyddoedd nesaf.

4.7.3 Yn ddiweddar, cynhaliwyd grwpiau ffocws gyda thrawstoriad o ddysgwyr yn yr uwchradd er mwyn casglu eu barn a'u syniadau ar gyfer sefydlu Fforymau Iaith ymhob ysgol uwchradd yng Ngwynedd o Fedi 2022 ymlaen. Mae hwn yn ddatblygiad cyffrous, ac edrychaf ymlaen i glywed am y syniadau a'r gweithgareddau y bydd y dysgwyr yn awyddus i'w datblygu er mwyn hybu defnydd o'r Gymraeg ymysg eu cyfoedion.

## 4.8 Gwaith dydd i ddydd yr Adran

4.8.1 Mae Diogelu lles plant a phobl ifanc Gwynedd yn flaenoriaeth allweddol i'r Adran a'r Cyngor, ac yn fwyfwy allweddol wrth gwrs yn sgil y pandemig a'r cyfnodau clo pan oedd mwyafrif ein dysgwyr (ar wahân i ddysgwyr bregus a phlant gweithwyr allweddol) yn gorfod aros adref. Yn ddiweddar, mae'r Adran wedi creu pecyn hyfforddi newydd yn y Gymraeg ar gyfer Personau Dynodedig Amddiffyn Plant mewn ysgolion a chanolfannau addysg ar y cyd â Grŵp Diogelu Mewn Addysg Llywodraeth Cymru. Braf yw gallu datgan bod 100% o bersonau dynodedig Amddiffyn Plant ein hysgolion wedi cwblhau hyfforddiant lefel 2 o fewn 3 blynedd, ynghyd â 100% o bersonau dynodedig ar gyrff llywodraethol ein hysgolion hefyd.

4.8.2 Pwrpas y gwasanaeth Arlwyo a Glanhau yw darparu bwyd maethlon ac iachus i ddisgyblion ysgolion Gwynedd a chadw'r sefydliadau addysgol yn lân a diogel er mwyn cynorthwyo'r disgyblion i gyrraedd eu potensial. Mae'r gwasanaeth yma wedi bod yn allweddol a chwbl greiddiol drwy gydol y pandemig i sicrhau gwasanaeth glanhau rheolaidd yn ystod y dydd er mwyn sicrhau awyrgylch diogel i ddysgwyr a staff yn ein hysgolion, yn ogystal â sicrhau darpariaeth cinio ysgol. Mae'r gwasanaeth arlwyo hefyd yn cynnig 13 lleoliad Kickstart yng ngheginau uwchradd ysgolion ar draws y Sir sydd yn derbyn gwasanaeth arlwyo gan y Cyngor. Mae'r cynllun Kickstart gan y Llywodraeth yn darparu cyllid ar gyfer creu lleoliadau gwaith ar gyfer pobl ifanc oedran 16 i 24 sydd yn derbyn Credyd Cynhwysol (Universal Credit) ac sydd mewn risg o ddiweithdra tymor hir.

4.8.3 Ar 6 Gorffennaf 2021, bu i'r Cabinet gymeradwyo gweledigaeth newydd ar gyfer Cyfundrefn Addysg Drochi gyfoes yng Ngwynedd sydd yn rhoi'r dysgwr yn ganolog wrth eu cefnogi i gaffael y Gymraeg. Mae'r weledigaeth newydd yma hefyd yn cynnwys buddsoddiad cyfalaf o £1.1miliwn gan Lywodraeth Cymru er mwyn sefydlu safleoedd addysg drochi o'r newydd ym Mangor a Thywyn, ynghyd â gwella'r

cyfleusterau ar safle Eifionydd ym Mhorthmadog. Mae'r gwaith eisoes wedi ei gwblhau ar safle Eifionydd, ac mae'r adeilad wedi cyrraedd safle Ysgol Tryfan ym Mangor hefyd, gyda gwaith cysyniadol ar gyfer dyluniadau safle addysg drochi newydd Tywyn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

Yn ddiweddar, bu'r Adran yn ffodus i dderbyn buddsoddiad cyfalaf pellach gan Lywodraeth Cymru, ac ar 19 Gorffennaf 2022 bu i'r Cabinet gymeradwy'r buddsoddiad fydd yn golygu sicrhau bod yr adnoddau yn y safleoedd trochi cynradd ym Maesincla yn addas ar gyfer yr Ganrif 21ain, gyda safle addysg drochi Llangybi yn symud i safle Cymerau ym Mhwllheli, a safle Dolgellau yn dod yn rhan o safle Bro Idris.

At hyn, mae'r Adran hefyd wedi bod yn ffodus iawn i dderbyn arian refeniw Trochi Hwyr Llywodraeth Cymru, a thros y misoedd diwethaf mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i lunio a recordio cyfres o weminarau fydd ar gael i weithlu ysgolion Gwynedd er mwyn eu harfogi gydag arferion trochi iaith. Mae'r arian refeniw hefyd wedi ein galluogi i foderneiddio'r ddarpariaeth drwy gomisiynu cwmni *Animated Technologies* i ddatblygu tref rithiol or enw Aber Rwla, gydag Anni Llŷn wedi ei chomisiynu yn greu'r cynllun trochi ar ei newydd wedd.

4.8.4 Sefydlwyd y <u>Ganolfan Fusnes Ysgolion</u> ym mis Medi 2019 er mwyn cynnig gwasanaethau i ysgolion y sir. Mae'r ganolfan yn cynnig nifer o wasanaethau gan gynnwys rheolaeth ariannol, gweinyddu penodiadau, trefnu athrawon llanw, a sicrhau fod system SIMS yn gyfredol. Mae'r ganolfan wedi adnabod tri blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn, ac ar hyn o bryd ar darged i gyflawni yn unol â'r Cynllun Busnes. Mae'n gadarnhaol iawn fod holl ysgolion cynradd Gwynedd yn prynu mewn i'r gwasanaeth, ac yn gweld gwerth er mwyn sicrhau bod prosesau yn cael eu dilyn yn gywir. Mae'r ganolfan yn esblygu'n barhaus i allu cynnig rhagor o wasanaethau i ysgolion yn y dyfodol.

4.8.5 Rhaid cydnabod mai crynodeb yn unig a geir yn yr adroddiad o holl waith yr Adran a'r ysgolion dros y misoedd diwethaf, ac o ganlyniad hoffwn gydnabod a nodi fy ngwerthfawrogiad i'r gwaith arwrol sydd wedi bod yn mynd rhagddo yn yr Adran ac yn ein hysgolion er sicrhau'r addysg gorau i'n plant ynghyd â diogelwch, iechyd a lles ein holl ddysgwyr a staff.

I gloi, hoffwn hefyd longyfarch ein hysgolion a'n dysgwyr ar ganlyniadau gwych yn yr arholiadau TGAU a Safon Uwch yr haf yma.

.

## 5. SEFYLLFA ARBEDION

Mae'r Adran wedi cyflawni holl gynlluniau arbedion hanesyddol.
Nid oes gan yr Adran targedau arbedion yn 2022/23.

## SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL

### Y Swyddog Monitro:

*Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.*

**Y Pennaeth Cyllid:**
*Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol yr Adran Addysg.*